**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar nos Wener y 25ain o Fai 2018 am 6.45yh.**

**Presennol:** Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Christopher Parish
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)

**Ymddiheuriadau** Y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Dawn Wallace.

**Cof 61 / Mai / 18 Anerchiad y Maer**
Dywedodd y Maer y Cyng. Eifion Davies y bu'n anrhydedd gwasanaethu fel Maer Tref Llandeilo. Diolchodd i'r Cynghorwyr a'r staff i gyd am eu cefnogaeth. Roedd wedi mynychu niferus ddigwyddiadau, llawer ohonynt i gefnogi elusennau lleol sy'n gwneud gwaith clodwiw. Roedd cyfarfodydd y Cyngor wedi mynd â llawer o oriau, gyda'r gwaith ychwanegol o Drosglwyddo Asedau a'r cynlluniau ar gyfer Neuadd y Sir.
Dywedodd y bu'n bleser mynychu digwyddiadau'r Rotari a Tenovus. Roedd yn ddiolchgar i'r rheiny sy'n trefnu'r amrywiol wyliau y mae Llandeilo yn dod yn enwog amdanynt, megis Gŵyl y Synhwyrau, digwyddiad Dathlu Dewi a drefnwyd gan y Cyng. Robert Jones, yr Ŵyl Lenyddol a drefnwyd gan y Cyng. Christoph Fischer, a'r Ŵyl Gerdd a'r Ŵyl Jas ardderchog.
Roedd yn dymuno diolch i'r Cyng. Gordon Kilby am drefnu cyngherddau Elusennol, er budd elusennau'r Maer eleni, sef Shelter Cymru a Sefydliad Aren Cymru. Llwyddodd y digwyddiadau yma, ynghyd â rhoddion eraill, i gasglu cyfanswm o £2,800, i'w rannu rhwng y ddwy elusen.

**Cof 62 / Mai / 18 Enwebu Maer ar gyfer 2018-2019**
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y Cyng. Edward Thomas. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Roedd pawb o blaid.
Derbyniodd y Cyng. Edward Thomas y penodiad. Darllenodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd ac arwyddodd y llyfr.
Fe wnaeth y Maer Ymadawol, y Cyng. Eifion Davies, arwisgo'r Maer newydd gyda Chadwyn y Swydd.
Cyflwynodd y Maer, y Cyng. Edward Thomas, fedal y cyn Faer i'r Maer ymadawol, y Cyng. Eifion Davies.
Cyflwynodd y Maer fedal y cyn Faeres i'r Faeres ymadawol, ynghyd â thusw o flodau.

**Cof 63 / Mai /18 Y Maer yn annerch y cyfarfod**
Diolchodd y Cyng. Edward Thomas i'w gyd Gynghorwyr am ei ethol yn Faer am yr eildro, deng mlynedd wedi ei dymor cyntaf yn y swydd. Diolchodd ef i'r Cynghorwyr a'r Staff i gyd am eu gwaith caled, yn enwedig wrth lwyddo i Drosglwyddo Asedau'r Parciau i ofal y Cyngor


Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Tref a'i bobl. Bu llawer o oriau ychwanegol o waith yn gysylltiedig, er mwyn cyrraedd ein sefyllfa bresennol.

**Cof 64 / Mai / 15 Enwebu Dirprwy Faer ar gyfer 2018-19**

Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby y Cyng. Owen James. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Derbyniodd y Cyng. Owen James y penodiad. Darllenodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd ac arwyddodd y llyfr.

Fe wnaeth y Maer, y Cyng. Edward Thomas, arwisgo'r Dirprwy Faer, y Cyng. Owen James, gyda Chadwyn y Swydd.

**Cof 65 / Mai / 15 Gohirio'r Cyfarfod**

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y cyfarfod yn cael ei ohirio, a'i ailddechrau yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 13eg o Fehefin 2018 am 6.30yh. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15yh.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk